

# Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

## 7. Dod o hyd i arian a'i gael

### 7.7.3 Costio eich tendr



## Cipolwg

Mae mwy a mwy o fudiadau trydydd sector yn ceisio amrywio eu ffynonellau incwm drwy ymgorffori strategaethau a thechnegau a fydd yn sicrhau sylfaen gynaliadwy o gyllid iddynt. Mae tendro i gyflwyno nwyddau neu wasanaethau dan gontract yn un o ddewis eang o opsiynau y bydd sefydliadau trydydd sector yn ei ystyried o bosib er mwyn creu incwm.

Mae sawl peth i'w ystyried wrth gostio tendr. Bwriad y daflen wybodaeth hon yw rhoi darlun cyffredinol o'r materion allweddol i'w hystyried.

## Prif gamau'r broses costio

Mae dau gam amlwg wrth gostio'ch tendr.

### Cam 1: Deall y costau llawn wrth ddarparu'r gwasanaeth

Yn gyntaf, rhaid i chi fod yn glir ynghylch beth yw'r costau llawn wrth i chi ddarparu'ch gwasanaeth. Mae'n hanfodol eich bod yn cynnwys yr holl orbenion perthnasol yn eich cyfrifiadau ac nid dim ond yn cyfri'r costau uniongyrchol neu'r costau ymylol perthnasol.

### Cam 2: Penderfynu sut mae prasio'r gwasanaeth ar gyfer y bid

Efallai y byddwch yn penderfynu cynnig gwasanaeth am bris gostyngol ar y dechrau er mwyn bod yn fwy cystadleuol (a elwir yn nwyddau 'ar golled') neu gallech benderfynu mynd am faint elw uwch er mwyn i chi allu rhoi arian yn eich cronfeydd wrth gefn.

Neu, efallai y byddwch yn penderfynu prasio'ch tendr ar **sail adfer costau llawn**. Beth bynnag y byddwch yn penderfynu ei wneud, dylech wybod pam eich bod yn gwneud hynny a dylech asesu'r gystadleuaeth a blaenoriaethau'r comisiynydd. Er enghraifft, efallai eich bod yn teimlo bod yr ansawdd uwch a'r gwerth ychwanegol rydych chi'n ei gynnig yn cyfiawnhau pris uwch. Modelau costio

Mae'n bwysig nodi bod y ddogfen rydych chi'n ei chyflwyno yn debygol o fod yn sail i gontract. Efallai na chewch chi gyfle i newid unrhyw beth wedyn os bydd eich mudiad yn llwyddiannus. Mae'n rhaid bod ôl gwaith meddwl ar y costiadau, lefelau staffio a manylion yr hyn y byddwch chi'n ei gyflenwi, a hynny yn ofalus, yn geidwadol a gyda'r gymeradwyaeth briodol.

**Model y comisiynydd** – Mae'r Comisiynydd yn debygol o nodi sut dylech ddadansoddi'ch materion ariannol. Gall hyn fod ar ffurf syml iawn, er enghraifft:

- Costau staff rheng flaen
- Costau rheoli
- Gorbenion

Gweithiwch drwy'ch proses eich hun ar gyfer costio'r contract cyn llenwi model y Comisiynydd. Byddwch yn gwybod wedyn eich bod wedi cynnwys eich holl gostau.

**Adfer Costau Llawn** – Mae'r model hwn yn costio pob gwasanaeth yn llawn, gan gynnwys cyfran berthnasol costau'r gorbenion. Mae'n sicrhau bod costau gorbenion wedi'u cynnwys a bod pob prosiect neu wasanaeth wedi'i gostio'n llawn.

Os na fyddwch yn llwyddo i adfer costau llawn yna bydd hyn yn golygu y bydd eich mudiad yn cyfrannu at gost y contract o ffynonellau eraill.

Os byddwch yn dewis cynnig gwasanaeth am bris gostyngol ar y dechrau er mwyn eich helpu i ymddangos yn fwy cystadleuol, yna dylech wybod pam eich bod yn gwneud hyn, beth y mae hyn yn ei gostio mewn gwirionedd, a sut y byddwch yn talu costau yn yr hirdymor.

Gall cyflwyno dull gweithredu ar sail adfer costau llawn fod yn broses hirfaith ac eto, mae'n hanfodol bod gennych system reolaeth ariannol o'r fath ar waith os yw eich mudiad yn bwriadu tendro'n rheolaidd am gontractau.

## **Cyfrifo gwarged ar y contract**

Y meysydd cyffredin y bydd angen gwarged ar eu cyfer yw:

- **Pwrpas cymdeithasol** – Mae'n bosib eich bod yn sianelu rhan o'ch gwarged tuag at hybu pwrpas cymdeithasol eich mudiad.
- **Datblygu i'r dyfodol** - Dylai eich mudiad fod yn meddwl yn strategol. Mae costau strategaeth ar gyfer y dyfodol yn draul ar amser ac ar arian.
- **Cynaliadwyedd** - Sicrhau eich bod yn gweithredu contractau proffidiol a fydd yn cynyddu cynaliadwyedd eich mudiad.
- **Cronni 'arian wrth gefn'** – Mae angen i chi fod yn cronni arian wrth gefn i dalu eich costau gweithredol a gwella eich hylifedd.

Mae'n amhosib pennu faint o warged y dylech anelu amdano ar gontract. Yn y cyfnod cynllunio, dylech ystyried pob un o'r meysydd uchod yn nhermau'r tendr.

Bydd rhai mudiadau'n ychwanegu canran y costau i gwrdd â'r elw y maent yn dymuno ei wneud. Dyma'r ffordd gyflymaf, ond yr elfen allweddol yw sicrhau eich bod yn prisio'r contract ar lefel y mae'r cwsmer yn fodlon ei thalu.

Cofiwch adolygu pob contract i ystyried y gwarged a gynllunnir, a gweld a gyflawnwyd hwn neu beidio. Astudiwch yn ofalus unrhyw ffactorau a leihaodd eich gwarged. Bydd hyn yn eich helpu i gynllunio'n fwy effeithiol y tro nesaf.

## **Treth ar Werth (TAW)**

Un o'r materion y bydd yn rhaid i chi ei ystyried yw goblygiadau TAW wrth ymrwymo i gontractau. Mae'n bosib y bydd angen i chi godi TAW am y nwyddau a'r gwasanaethau rydych chi'n eu cyflenwi. Hefyd, gallech fod yn talu TAW y byddwch chi am ei hadennill.

Mae gwybodaeth sylfaenol am faterion TAW ar gael ar wefan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn [www.hmrc.gov.uk/charities](http://www.hmrc.gov.uk/charities). Pan fyddwch chi'n codi TAW ar y nwyddau a'r gwasanaethau rydych chi'n eu cyflenwi, cofiwch ei gynnwys yn yr anfonebau. Hefyd, cofiwch nodi manylion TAW yn y tendr. Os nad ydych yn siŵr am oblygiadau TAW unrhyw gontract rydych chi'n tendro amdano, yna ymgynghorwch â chyfrifydd TAW.

## **TUPE**

Safonau TUPE ar gyfer Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006.

Mae TUPE yn aml yn berthnasol pan fydd gwasanaeth yn cael ei dendro a bod darparwr cyfredol yn cael ei ddisodli gan un newydd. Mae'n golygu bod gan y cyflogeion yn y gwasanaethau gwreiddiol yn aml yr hawl i gael eu trosglwyddo i'r mudiad newydd. Mae eu holl hawliau blaenorol wedyn wedi'u gwarchod, megis oriau gwaith, tâl, hawliad gwyliau a phensiwn.

Bydd angen i fudiadau sy'n tendro am wasanaethau archwilio a fydd TUPE yn berthnasol os ydynt yn ennill tendr, ac ystyried beth fydd hyn yn ei olygu i'r dyfodol.

Mae'n wirioneddol bwysig bod darparwyr yn ystyried risg TUPE wrth fidio am gontractau, a derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn gallu asesu eu rhwymedigaethau a'u costau yn briodol. Weithiau, gofynnir i Ddarparwyr gwblhau Cytundeb Cyfrinachedd cyn y bydd yr Adran Caffael yn rhyddhau gwybodaeth o'r fath.

Gwiriwch i weld a ddylai'r cyflwyniad gynnwys costau TUPE. Efallai na fydd pecyn y tendr yn datgan dim am y mater. Ystyriwch a fydd costau TUPE yn arwain at bris anghystadleuol. Aseswch yr effaith debygol ar y mudiad, a'r amser a'r buddsoddiad y bydd eu hangen i ddelio â newid diwylliant a newidiadau mewn arferion gwaith.

Cofiwch ystyried nifer y staff a fydd yn trosglwyddo. Aseswch nifer y staff y bydd eu hangen i gyflenwi'r contract o'i gymharu â nifer y staff sy'n gymwys i'w trosglwyddo, a rhowch gost briodol yn y bid ar gyfer unrhyw gostau diswyddo a fydd yn dilyn.

## **Sut rydym yn osgoi problemau llif arian?**

Wrth gynllunio'r contract dylech ystyried yr amserlen talu a gynigir gan y contractwr. Ochr yn ochr â'ch cyllideb, mae'n ddefnyddiol gwneud rhagamcaniad o lif arian. Bydd hyn yn eich helpu i ddadansoddi lle gallai problemau llif arian godi. Dyma'r cwestiynau i'w gofyn wrth i chi wneud rhagamcaniad o'ch llif arian:

- Pryd rydym yn cael ein talu?
- Sut mae'r amserlen talu hon yn effeithio ar ein gallu i ddarparu'r contract?
- Sut bydd yn effeithio ar dalu cyflog i staff?
- Sut bydd yn effeithio ar ein gallu i dalu ein cyflenwyr (neu isgcontractwyr)?

Os ydych yn meddwl y cewch chi broblemau gyda llif arian, gall fod yn werth negodi amserlen talu wahanol neu roi yn eich tendr fod cyfran o'r costau'n cael ei thalu ymlaen llaw.

Efallai na fyddwch, ar ddiwedd y contract, yn cael gweddill costau'r contract nes bydd y contractwr yn fodlon gyda'r cyflenwi. Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi drefnu gorddrafft neu fenthyciad i dalu costau os na fydd gennych ddigon o arian wrth gefn ar gyfer y llif arian. Cofiwch gynnwys costau talu am orddrafft neu ad-dalu benthyciad yng nghostau'r contract.

## **Adfachu**

Mae adfachu'n amod grant sy'n rhoi daliad i gyllidwr dros ased a feddwyd drwy ddefnyddio cyllid grant. Gallai amod o'r fath ofyn bod y corff a gyllidwyd yn ad-dalu'r grant neu, yn fwy cyffredin, dychwelyd elw gwerthiant yr ased i'r cyllidwr h.y. bod y cyllidwr yn 'adfachu' yr elw. Mae adfachu hefyd wedi cael ei ddefnyddio gan rai cyllidwyr i adfer arian grant nas gwariwyd.

Fodd bynnag, nid yw adfachu'n berthnasol i gaffael nwyddau a gwasanaethau.

Mae canllaw Trysorlys EM yn datgan fel a ganlyn:

'Nid yw adfachu'n berthnasol i gaffael nwyddau a gwasanaethau gan y byddai unrhyw rwymedigaeth wedi'i hanrhydeddu'n ddigonol unwaith bod y nwyddau / gwasanaethau wedi'u darparu, ac mae negodi pris ac arfarnu yn rhan anhepgor o'r broses caffael. Unwaith y bydd contract wedi'i ddyfarnu, dylid barnu perfformiad ar allbynnau a chanlyniadau. Mater i'r darparwr ei hun yw a oes modd bodloni'r rhain o fewn y pris y

cytunwyd arno neu beidio. Os ydynt yn digwydd sicrhau gwarged, maent yn rhydd i ddefnyddio'r gwarged hwn fel y mynnant'.

## Cynghorion doeth

- Os yw'r tendr am fwy nag un flwyddyn, cofiwch gostio unrhyw chwyddiant yng nghostau staff a chyflenwyr.
- Esboniwch unrhyw dybiaethau rydych chi'u gwneud. Felly, os na fydd y comisiynydd yn cytuno â'r dybiaeth, gallant herio hynny yn hytrach na'r pris.
- Os bydd mwy nag un prosiect yn ariannu'ch staff neu swyddfa, cofiwch ddyrannu'r costiadau'n deg ar draws y gwahanol gyllidwyr.
- Holwch beth fydd y telerau talu ar gyfer y contract. Bydd bob pedair wythnos ymlaen llaw neu bob chwarter ar ffurf ôl-daliad yn gwneud gwahaniaeth mawr i lif arian eich mudiad.
- Gochelwch rhag talgrynnu rhifau, er enghraifft, dweud mai £3,000 fydd cyfraniadau pensiwn. Mae rhifau crwn yn awgrymu eich bod wedi dyfalu yn hytrach na chyfrifo'r swm yn iawn!
- Mae'n ddefnyddiol gwybod beth mae'r cystadleuwyr eraill yn ei godi. Gall hyn eich helpu gyda strategaeth brisio. Wedyn, gallwch feincnodi ansawdd eich nwyddau a gwasanaethau yn erbyn eich cystadleuwyr.
- Cofiwch adolygu pob tendr a contract. Edrychwch yn ôl i weld beth a ddysgwyd. Bydd hyn yn eich helpu i wella eich costio yn y dyfodol.
- Os oes gennych chi dendrau neu contractau blaenorol, defnyddiwch yr wybodaeth o'r rhain i'ch helpu i baratoi eich costio.
- Adfer Costau Llawn – canllawiau a phhecyn ar ddyrannu costau – gellir ei lwytho oddi ar wefan ACEVO [www.acevo.org.uk](http://www.acevo.org.uk)

## Gwybodaeth bellach

### Taflenni gwybodaeth

3.7 Comisiynu

3.8 Contractau

7.1 Cyflwyniad i gaffael

7.7.1 Cyflwyniad i dendro

7.7.3 Datblygu tendr llwyddiannus

## Ochr gyfreithiol

- Mae *CC37 Elusennau a darparu gwasanaeth cyhoeddus* a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Elusennau, yn nodi'r ystyriaethau ar gyfer elusennau wrth ymgymryd â chontract. Gellir ei llwytho oddi ar [www.charity-commission.gov.uk](http://www.charity-commission.gov.uk)
- Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch goblygiadau treth at Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.  
0845 302 0203  
[www.hmrc.gov.uk/charities/vat/intro.htm](http://www.hmrc.gov.uk/charities/vat/intro.htm)

## Cefnogaeth

- Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru yn rhoi gwybodaeth am ystod eang o faterion ariannol a chyllido gan gynnwys tendro. Gweler y daflen wybodaeth '1.7 Lle i fynd am gymorth' i gael manylion eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol.
- Mae Porth Cyllido Trydydd Sector Cyllid Cynaliadwy Cymru yn siop un-stop ar gyfer cyngor a chyfleoedd cyllido.  
[www.sustainablefundingcymru.org.uk](http://www.sustainablefundingcymru.org.uk)
- Mae tîm 3-SET WCVA yn rhoi arweiniad ar dendro ar gyfer cyfleoedd a ariennir gydag arian Ewrop.  
0800 2888 329  
[3SET@wcva.org.uk](mailto:3SET@wcva.org.uk)
- Nod Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr Llywodraeth Cymru yw rhoi cyfle gwell i fusnesau o bob sector ennill contractau'r sector cyhoeddus.  
[www.business-support-wales.gov.uk](http://www.business-support-wales.gov.uk)

## Hyfforddiant

- *Cyflwyniad i dendro* – manylion cwrs rhagarweiniol undydd sydd ar gael yn [www.coursesforcommunities.org.uk](http://www.coursesforcommunities.org.uk)
- *Sut mae tendro* – mae manylion cwrs deuddydd ymarferol yn dilyn y camau sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu a chyflwyno tendr ar gael yn [www.sustainablefundingcymru.org.uk](http://www.sustainablefundingcymru.org.uk)

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

#### Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy

7 Rhiw Road, Bae Colwyn, LL29 7TG

Elusen Gofrestredig: 1151397

Ffôn: 01492 534091

post@cvsc.org.uk

Ffacs: 01492 535397

www.cvsc.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli  
Wedi ei ddiweddarau: 28/06/2011



Ffôn: 0300 111 0124  
[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)